Dyddiad 30 Hydref 2008
Ar Ran: Boomerang Plus plc ("Boomerang", "y Grŵp" neu "y Cwmni")
Embargo: 0700hrs

Boomerang Plus plc

Newid ar y Bwrdd

Mae Boomerang Plus plc (AIM: BOOM.L), cwmni cynhyrchu annibynnol, proffidiol ac wedi ei integreiddio'n fertigol sy'n creu cynnwys teledu amrywiol yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau, yn falch o gyhoeddi apwyntiad Richard Huntingford yn Gadeirydd Anweithredol. Bydd Roger Moore yn aros ar y Bwrdd fel Cyfarwyddwr Anweithredol annibynnol .

Roedd Richard, 52, yn Brif Weithredwr Grŵp Chrysalis plc o fis Rhagfyr 2000 tan Mis Medi2007, wedi ymuno â'r Grŵp fel Cyfarwyddwr Datblygiad Corfforaethol yn Mehefin 1987. Yn Chrysalis roedd yn gyfrifol am adeiladu'r cwmni I Grŵp Cyfryngol gyda seiliau cadarn yn meysydd radio, teledu a cherddoriaeth. Yn ystod ei gyfnod ef daeth Chrysalis Television yn gynhyrchydd blaengar o ddrama, adloniant, rhaglenni ffeithiol a chwaraeon gyda rhaglenni fel Midsomer Murders, Richard and Judy, Top Ten, F1 a Football Italia, cyn ei werthu i All3Media yn Awst 2003. Sefydlodd Richard Chrysalis Radio yn 1993 a llwyddo i ddatblygu Grŵp gyda rhai o'r brandiau radio mwyaf llwyddiannus fel Heart, Galaxy ac LBC cyn gwerthu am £170 miliwn i Global Radio yn Gorffennaf2007. O Fedi 2007 roedd Richard yn Gadeirydd Gweithredol Virgin Radio tan ei gaffaeliad gan Times of India yn Mehefin2008. Enillodd Richard ei gymwysterau fel Cyfrifydd Siartredig gyda KPMG ac mae ganddo dros 20 mlynedd o brofiad ar lefel byrddau PLC yn y diwydiannau cyfryngol..

Dywedodd, Huw Eurig Davies, Prif Weithredwr Boomerang:

"Ar ran y Bwrdd, mi garwn ddiolch i Roger am ei gyfraniad i Boomerang ac yn arbennig ei gyfraniad sylweddol i'n lleoliad ar AIM. Rydym yn croesawu ei gefnogaeth i'r dyfodol fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar y Bwrdd.

"Rydym yn hod o falch o groesawu Richard i'r Bwrdd. Mae ganddo brofiad a llwyddiant sylweddol mewn busnes cwmnïau cyfryngol a fydd yn ychwanegiad gwerthfawr i'r Cwmni. Mae'r Grŵp ar adeg cyffrous yn ei ddatblygiad a chredwn y bydd profiad Richard yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r cyfnod nesaf tra bod y Grŵp yn dal i dyfu."

Ychwanegodd Richard Huntingford, Cadeirydd Anweithredol newydd Boomerang:

"Rwy'n hapus iawn fy mod wedi ymuno gyda Boomerang ar adeg mor gyffrous yn ei ddatblygiad. Mae'r cwmni wedi mwynhau cynnydd cryf dros y flwyddyn diwethaf ac wedi cyhoeddi canlyniadau cadarn yr wythnos diwethaf. Gyda mantolen gryf a rheolaeth brofiadol ac uchelgeisiol, mae'r Cwmni mewn sefyllfa ardderchog i fanteisio ar y cyfleon sylweddol of fewn y farchnad gyfnewidiol yn y cyfryngau ar hyn o bryd."

Mae Richard Norman Legh Huntingford wedi bod yn gyfarwyddwr y cwmnïau canlynol yn ystod y pum mlynedd diwethaf:

Current Directorship	**Date**
RNLH Consulting Limited	25 Sept 2007

Past Directorships	**Date**
AIR Overworld Limited	1994 – 2007
AIR Records Limited	1994 – 2007
Air Studios (Lyndhurst) Limited	1990 – 2006
Chrysalis Digital Radio Limited	2000 – 2007

Chrysalis Group plc	1987 – 2007
Chrysalis Holdings Limited	1990 – 2007
Chrysalis Limited	1997 – 2007
Chrysalis Mobile Solutions Limited	2004 – 2007
Chrysalis New Media Investments Limited	2001 – 2007
Chrysalis Picture Library Limited	2000 – 2007
Chrysalis Radio Holdings Limited	2002 – 2007
Chrysalis Radio Limited	1995 – 2007
Chrysalis Radio London Limited	1993 – 2007
Chrysalis Retail Entertainment Limited	1993 – 2007
Chrysalis Television Mobiles Limited	1996 – 2007
Faze Three (East Midlands) Limited	1997 – 2007
Galaxy Radio Limited	1994 – 2007
Golden Square Networks Limited	2007 – 2008
Heart TV Limited	1998 – 2007
Puremix Limited	2000 – 2007
Radiocentre Limited	2007 – 2008
Rivals Europe Limited	2000 – 2007
Rojo Leisure Limited	1999 – 2007
Salamander Books Limited	1999 – 2005
SMG Digital Radio Limited	2008 – 2008
The Clean Car Company Limited	1988 – 2005
The Echo Label Limited	1993 – 2007
Virgin Mobile Holdings (UK) plc	2005 – 2006
Virgin Radio Holdings Limited	2007 – 2008
Virgin Radio Limited	2007 – 2008
Washworks (MK) Limited	1992 – 2005

Cadarnhaodd Mr. Huntingford nad oedd angen datgeliadau pellach dan reolau AIM Schedule 2 paragraff (g)

- Diwedd -

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Boomerang Plus plc **Via Redleaf Communications**
Huw Eurig Davies, Prif Weithredwr
Mark Fenwick, Cyfarwyddwr Cyllid
Richard Huntingford, Cadeirydd Anweithredol **Tel: 07802 793 444**

Altium Capital Limited
Tim Richardson / Melanie Szalkiewicz **Tel: 020 7484 4040**

Redleaf Communications **Tel: 020 7822 0200**
Sanna Sumner/ Anna Dunkin boomerang@redleafpr.com

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae gan y Grŵp, a sefydlwyd yn 1994, brofiad eang mewn cynhyrchu cynnwys mewn amrywiaeth o genres, yn cynnwys rhaglenni ieuenctid, ffordd o fyw, cerddoriaeth, adloniant. Rhaglenni plant, chwaraeon eithafol a drama.
- Mae gan y Grŵp weledd da i'r refeniw gan fod cyfran uchel ohono wedi ei gytundebu gyda'r darlledwyr.

- Mae'r farchnad i gwmnïau cynhyrchu annibynnol yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau wedi tyfu yn dilyn gosod cwota gan y rheoleiddiwr Ofcom yn mynnu fod rhwng 10% a 50%, yn dibynnu pa ddarlledwr, o raglenni cymwys yn cael eu cynhyrchu y tu allan i'r M25.
- Mae Boomerang yn cael ei gyfrif ymhlith y pum prif gwmni cynhyrchu annibynnol, yn ôl enillion, y Cenhedloedd a'r rhanbarthau yn ôl arolwg Broadcast Survey (Nations and Regions) 2007
- Strategaeth y Bwrdd yw cael twf organig cryf dan ddylanwad busnes y cwsmeriaid presennol a chyplysu hyn gyda chaffaeliadau strategol, gyda'r bwriad o ddod yn gyflenwr mawr i rwydweithiau'r DU sydd am fodloni'r cwotâu o'r Cenhedloedd a'r Rhanbarthau.
- Mae Boomerang mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses o gyfuno cwmnïau ledled y DU. Bydd gan y cwmnïau fydd yn cael eu targedu drac record dda, fydd yn cynorthwyo'r Grŵp i dyfu ymhellach, y tu allan i Gymru